OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1877 (Cy.186)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *18 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 61(1), 65, 69, 71, 73(3), 74, 77(4), 78, 79(4), 188, 193, 196(4) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a pharagraffau 5, 6, 7(6) ac 8(6) o Atodlen 1 iddi(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Gorchymyn 1995" yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995(**3**) ac mae unrhyw gyfeiriad at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yng Ngorchymyn 1995.

### Diwygio Gorchymyn 1995

**3.** Mewnosodwch yng Ngorchymyn 1995, ar ôl erthygl 5—

"**Declaration to accompany application to a local planning authority in Wales for planning permission for certain telecommunications developments.**

**5A.**—(1) This article applies to any application for planning permission which:

(**1**) 1990 p.8.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59, 61(1), 65, 69, 71, 73(3), 74, 77(4), 78, 79(4), 188, 193, 196(4) a 333(7), a pharagraffau 5, 6, 7(6) ac 8(6) o Atodlen 1 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672 ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S.1995/419.

(a) is made to a local planning authority in Wales; and

(b) relates to development which involves the construction or installation of one or more antennas for the purpose of operating a telecommunications system.

(2) For the purposes of this Article—

"telecommunications system" has the meaning assigned to that term by section 4(1) of the Telecommunications Act 1984(**4**) (meaning of "telecommunications system" and related expressions).

(3) An application to which this Article applies must be accompanied by a written declaration that the equipment and installation to which the application relates is so designed that it will, when constructed or installed, operate, having regard to its location and the manner in which it has been constructed or installed, in full compliance with the requirements of the radio frequency public exposure guidelines of the International Commission on Non-ionising Radiation Protection, as expressed in EU Council recommendation of 12 July 1999(**5**) on the limitation of exposure of the general public to electromagnetic fields (0 Hz to 300 GHz)."

**Darpariaethau trosiannol**

**4.** Nid yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Orchymyn 1995 gan y Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir cyn y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*John Marek*

18 Gorffennaf 2002 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1984 p. 12; diwygiwyd adran 10 gan O.S. 1997/2930.
(**5**) 1999/519/EC.
(**6**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 mewn perthynas â Chymru er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol bod datganiad ysgrifenedig bod y cyfarpar a gosodiad y mae'r cais yn perthyn iddynt wedi'u cynllunio fel y byddant, ar ôl cael eu hadeiladu neu'u hosod, yn gweithio yn y fath fodd ag i gydymffurfio'n llawn â gofynion canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydredd Anïoneiddio ar ddatguddio'r cyhoedd i amleddau radio yn cyd-fynd â phob cais i awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu sy'n cynnwys adeiladu neu osod un neu fwy o antenâu er mwyn gweithredu system delathrebu.

Mae llawer ffurf ar ddatblygu sy'n perthyn i gyfarpar telathrebu yn mwynhau hawliau datblygu a ganiateir o dan Ran 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Trwy ddiwygiad i'r Gorchymyn hwnnw, mae gofyniad yn cael ei gyflwyno hefyd fod datganiad tebyg yn cyd-fynd â cheisiadau i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru am ddyfarniadau ynghylch a yw cymeradwyaeth o flaen llaw yn ofynnol o dan y Gorchymyn hwnnw lle bo gofyn am gais felly mewn cysylltiad â datblygu sy'n ymwneud ag adeiladu neu osod un neu fwy o antenâu.